

## Tasg 1

(Estynnol, sbardun 3)

### A. Am y cyntaf i ateb y 10 cwestiwn!

1. Tua pa flwyddyn oedd fandaliaeth ar ei waethaf yng Nghymru a Lloegr?
2. Pwy roddodd wybodaeth i'r rhai oedd yn gwneud yr ymchwil?
3. Pa ddau beth sy'n cadw cysgodfeydd rhag cael eu fandaleiddio?
4. Beth yw'r anfantais o ddefnyddio ASBOS?
5. Beth sydd wedi helpu'r heddlu i ddal fandaliaid?
6. Pa 3 pheth arweiniodd at wella fandaliaeth yn Cotgrave?
7. Oddeutu sawl tecst fydd pobl ifanc yn eu hanfon mewn pythefnos?
8. Tua faint o amser mae pobl ifanc yn ei dreulio yn chwarae gemau cyfrifiadurol mewn blwyddyn?
9. Ym mha flwyddyn y cododd gwerthiant smartphones fwyaf?
10. Pam mae pobl ifanc yn yfed llai?

### B. Gwaith grŵp.

Mae'r darn darllen yn awgrymu 9 rheswm pam mae llai o fandaliaeth. Trafodwch bob rheswm a gosodwch nhw yn eu trefn – o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig. Wrth drafod cofiwch roi rhesymau a thystiolaeth.

1. Awgrymiadau sydd gan lanto yn ei lythyr. Trowch nhw yn orchmynion. Mae un wedi ei wneud i chi ac mae'n dangos sut mae treiglâd medal yn digwydd weithiau.

Gwneud yn siwr bod y larymau tân a'r larymau lladron yn gweithio'n iawn.	
Sicrhau bod golau digonol ar dir yr ysgol ac yn arbennig yn y cornelau tywyll	
Ystyried cyflogi rhywun i gerdded o gwmpas yr ysgol yn ystod y nos	
Torri gor-dyfiant sy'n rhoi lle....	Torrwch or-dyfiant sy'n rhoi lle ...
Diffodd y cyflenwad nwy i'r labordai a'r ceginau	
Symud biniau ysbwriel gan eu bod yn lleoedd delfrydol i gychwyn tân	
Cadw'r giataiau ar glo	
Sicrhau bod y ffensus a'r giataiau yn gyfan	
Cau llenni'r ystafelloedd i guddio'r hyn sydd yno	
Storio offer drud e.e. cyfrifiaduron mewn ystafell dan glo, heb ffenestri ac ddim ar y llawr gwaelod.	